



**MEDDWL
GADAEL?**

AILYSTYRIWCH!

Gwybodaeth i Fyfyrwyr Israddedig



Mae fformatau eraill ar gael ar gais hefyd.



Gwybodaeth i Fyfyrrwyr Israddedig am y canlynol:

- ◇ Blwyddyn fwlch
- ◇ Newid cyrsiau ym Mhrifysgol Bangor
- ◇ Atal/Gohirio eich astudiaethau
- ◇ Ailwneud eich astudiaethau
- ◇ Trosglwyddo i Brifysgol arall
- ◇ Tynnu'n ôl o'r Brifysgol

Mynegai

Rhagarweiniad	Tudalen 1
Adnabod y broblem	Tudalen 2
A gaf i gymryd blwyddyn fwlch?	Tudalen 3
Newid cwrs ym Mangor	Tudalen 3
Ailwneud blwyddyn astudio	Tudalen 4
A gaf i atal fy astudiaethau dros dro?	Tudalen 4
A gaf i drosglwyddo i Brifysgol arall?	Tudalen 5
Tynnu'n ôl o'r Brifysgol	Tudalen 5
Goblygiadau atal neu dynnu'n ôl o astudio	Tudalen 6
Cyllid Myfyrrwyr	Tudalen 6
Goblygiadau ariannol eraill	Tudalen 7
Ystyriaethau eraill ar gyfer atal astudio	Tudalen 7
Y broses: sut i atal neu dynnu'n ôl o astudio	Tudalen 8
Y Tîm Cefnogi Myfyrrwyr	Tudalen 9
Ffynonellau eraill o gymorth	Tudalen 10

Y Tîm Cefnogi Myfyrrwyr

Mae'r Tîm Cefnogi Myfyrrwyr yn cynnig cyngor ac arweiniad ar yr holl faterion uchod (a mwy). Manylion cyswllt ar dudalen 9.

RHAGARWEINIAD

Bob blwyddyn mae nifer o fyfyrwyr yn meddwl a wnaethan nhw'r penderfyniad cywir i ddod i Brifysgol Bangor. Er gwaethaf yr ymchwil a wnaethoch chi cyn dod yma, efallai eich bod chi'n meddwl nad yw'r cwrs yn addas i chi, nad yw'r Brifysgol yn addas i chi neu nad ydych chi am fod mewn Prifysgol o gwbl.

Nid yw hynny'n anarferol o ystyried ei fod yn newid mawr iawn i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr. Os ydych chi'n profi'r fath amheuan gall hynny fod yn rhywbeth annisgwyl iawn ac yn straen mawr ar rywun, yn enwedig os yw eich teulu a'ch ffrindiau wedi synnu wrthy'ch chi. Efallai y byddwch chi, a nhw, yn ei chael hi'n anodd deall ac efallai y byddwch chi'n teimlo'n ansicr ynglŷn â'ch dyfodol chi a beth i'w wneud.

Efallai fod hiraeth arnoch am adref, ond er hynny mae'n bwysig rhoi amser i chi'ch hun arfer â lle newydd. Mae'n anodd ar adegau ond cofiwch fod gan Brifysgol Bangor nifer o ffyrdd o'ch helpu chi trwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd.

Os ydych chi'n ystyried newid eich astudiaethau e.e. trwy atal, tynnu'n ôl neu ailadrodd eich cwrs, mae'n bwysig eich bod chi'n llawn ddeall y goblygiadau oherwydd mi allant fod yn gymhleth. Mae siarad â'r staff perthnasol yn rhan bwysig o'r broses ond mae'r llyfryn hwn yn rhoi peth gwybodaeth i chi er mwyn i chi roi cychwyn arni.

Chwi Fyfyrwyr Rhyngwladol cofiwch y bydd goblygiadau ar gyfer eich fisa myfyriwr os wnewch chi dynnu'n ôl neu ohirio astudio. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y fisa ei ganslo a bydd rhaid i chi ddychwelyd adref. Fodd bynnag, caiff yr achosion eu hystyried yn unigol ac felly cyn i chi wneud penderfyniad terfynol, trafodwch fater eich fisa gyda Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol y Brifysgol.

ADNABOD Y BROBLEM

Yn gyntaf, ceisiwch fynd i wraidd y broblem. Ystyriwch a yw'n cynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- ◇ Cynnwys academiaidd / arddull y cwrs
- ◇ y brifysgol yn ehangach
- ◇ profiad cyffredinol y myfyrwyr
- ◇ problemau personol megis:
 - * lechyd
 - * amgylchiadau teuluol
 - * materion ariannol

Gan ddibynnu ar natur y pryderon, mae'n bosib y byddai modd eu datrys trwy siarad ag aelod o'r staff.

Byddai'n syniad da i chi siarad â'ch Tiwtor Personol yn syth os oes gennych chi unrhyw bryderon ac os yw'n briodol, mi wnân nhw eich cyfeirio chi at y Tîm Cefnogi Myfyrwyr yng Ngwasanaethau'r Myfyrwyr. Fel arall, os yw hynny'n well gennych, gallwch gysylltu â'r Tîm Cefnogi Myfyrwyr yn uniongyrchol. Pwy bynnag y siaradwch chi â nhw, mi wnân nhw wrando ar eich pryderon chi a rhoi gwybodaeth i chi a allai eich helpu chi oresgyn y problemau.

Fodd bynnag, os wnaiff hynny ddatrys pethau a'ch bod chi'n dal i ystyried rhoi'r gorau i astudio, efallai y bydd angen i chi roi rhagor o ystyriaeth i'r sefyllfa ac ystyried a ddylech:

- ◇ newid cwrs ym Mangor
- ◇ cymryd seibiant o astudio
- ◇ trosglwyddo i Brifysgol wahanol
- ◇ ymadael ag Addysg Uwch yn gyfan gwbl

A GAF I GYMRYD BLWYDDYN FWLCH?

Nid yw'n anarferol i fyfyrwyr sydd wedi dod yn syth o'r Ysgol neu'r Coleg deimlo pwysau i fynd ar eu hunion i'r Brifysgol, a'u cael eu hunain yn y Brifysgol heb fod wedi rhoi llawer iawn o feddwl i bethau cyn dewis cwrs na Phrifysgol. Yn ôl rhai myfyrwyr, maen nhw'n teimlo fel pe baent ar 'felin draed addysgol', ac mai ychydig iawn o ddweud a fu ganddyn nhw ynglŷn â'u tynged. Os felly, efallai yr hoffech gymryd blwyddyn rydd o addysg, er mwyn cael amser i ystyried yr hyn yr hoffech chi ei wneud mewn gwirionedd.

Byddai'n syniad da i chi drafod materion o'r fath gyda'ch Tiwtor Personol ac yna gydag un o Gynghorwyr y Myfyrwyr yn y Tîm Cefnogi Myfyrwyr.

NEWID CYRSIAU YM MHRIFYSGOL BANGOR

Os ydych chi eisiau newid i gwrs arall ym Mhrifysgol Bangor, mae angen ichi fynd at Gyfarwyddwr y Cwrs yr hoffech chi drosglwyddo iddo, boed o fewn eich Ysgol bresennol neu un arall. Mae hyn i weld a oes llefydd ar y cwrs hwnnw ac a ydynt yn barod i'ch derbyn chi. Ar ôl gwneud hynny, bydd angen i chi gwblhau Cais Newid Gradd trwy'r Ganolfan Geisiadau ar MyBangor.

Fel arfer, ni chaniateir newid cwrs ar ôl i 4 wythnos o'r semester fynd heibio.

AILWNEUD BLYNYDDOEDD ASTUDIO

Efallai y bydd gofyn i fyfyrwyr sydd wedi methu â symud ymlaen o'r naill lefel astudio i'r llall (e.e. Blwyddyn 1 i Flwyddyn 2) ailwneud modiwlau a fethwyd neu'r lefel gyfan neu'r flwyddyn astudio gyfan. Cewch bob gwybodaeth angenrheidiol am hynny gyda'r canlyniadau diwedd blwyddyn.

Byddai'n dda o beth i chi gysylltu â'r Uned Cymorth Ariannol i gael gwybodaeth am sut y byddai ailwneud blwyddyn academaidd yn effeithio ar eich hawl i gyllid myfyrwyr cyn gynted ag y ceuoch wybod a oes angen i chi ailadrodd ai peidio.

A GAF I ATAL FY ASTUDIAETHAU DROS DRO?

Os oes gennych broblemau o ran iechyd, teulu neu arian, bydd modd ichi atal eich astudiaethau dros dro. Er nad yw'n hawl awtomatig, mai wnaiff y Brifysgol ddwys ystyried unrhyw gais gan fyfyrwyr i ohirio eu hastudiaethau, ac mi wnaiff ymdrechu i roi cyngor a chymorth priodol.

Mae angen ichi drafod y goblygiadau i'ch cwrs chi gyda'r Ysgol academaidd i sicrhau bod hyn yn bosibl h.y. a fydd strwythur y cwrs, opsiynau'r modiwlau ac ati ar gael pan fyddwch chi'n dychwelyd.

Mae gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer cymeradwyo toriadau mewn astudiaethau i'w gweld ar wefan y Brifysgol:

<https://www.bangor.ac.uk/regulations/procs/proc07.php.cy>

A GAF I DROSGLWYDDO I BRIFYSGOL ARALL?

Efallai y bydd hyn yn bosibl ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'n dibynnu i raddau helaeth pa mor gyflym y gwnewch chi eich penderfyniad a'r llefydd sydd ar gael yn y Brifysgol yr ydych am fynd iddi. Fodd bynnag, mi allai newid Prifysgol yn sydyn a chwithau newydd gyrraedd yma fod yn straen mawr arnoch chi ac felly byddai'n dda o beth i chi drafod y mater gyda Chynghorydd y Myfyrwyr yn y Tîm Cefnogi Myfyrwyr a all roi cyngor i chi a sicrhau bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn.

TYNNU'N ÔL YN GYFAN GWBL O'R BRIFYSGOL

Os ydych chi'n ystyried tynnu'n ôl o'r Brifysgol yn gyfan gwbl yn hytrach na throsglwyddo i brifysgol arall, rydym eto'n argymhell eich bod chi'n siarad ag aelod o'r staff megis eich Tiwtor Personol, aelod priodol arall o staff yr Ysgol neu un o Gynghorwyr y Myfyrwyr yn y Tîm Cefnogi Myfyrwyr i drafod eich pryderon a'ch opsiynau chi.

Mi wnân nhw geisio rhoi'r holl wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol i chi i'ch helpu chi wneud penderfyniad cytbwys. Bydd hynny'n cynnwys trafod goblygiadau gadael a sut y bydd hyn yn effeithio ar eich hawl i gael cyllid myfyriwr, ffioedd dysgu, ffioedd llety ac astudiaethau at y dyfodol a gallai helpu unioni eich pryderon. Os penderfynwch adael ar ôl dwys ystyried mi wnân nhw eich tywys chi drwy'r broses.

Osna wnewch chi dynnu'n ôl yn barhaol o'r Brifysgol yn ffurfiol mi ellid codi ffioedd dysgu arnoch chi am flwyddyn lawn.

YSTYRIAETHAU ARIANNOL SY'N YMWNEUD AG ATAL NEU DYNNU'N ÔL O'R BRIFYSGOL

Dylai myfyrwyr sy'n ystyried atal neu dynnu'n ôl ofyn am arweiniad gan y Tîm Cefnogi Myfyrwyr ynghylch eu hachos unigol ond isod wele rhai pwyntiau cyffredinol i chi eu hystyried:

Cyllid Myfyrwyr:

Fel rheol, mae myfyrwyr israddedig yn cael cyllid myfyrwyr ar gyfer eu cwrs cyfan (3 neu 4 blynedd fel arfer) ynghyd â blwyddyn ychwanegol. Os byddwch chi'n atal neu'n tynnu'n ôl o astudio ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn, byddwch chi wedi derbyn cyllid am y flwyddyn honno. Pan ddychwelwch chi'r flwyddyn ganlynol i ailgychwyn eich astudiaethau, mae'n debyg y byddwch chi'n defnyddio eich 'blwyddyn ychwanegol'. Petai angen, byddai disgwyl i fyfyrwyr hunan-ariannu unrhyw flynyddoedd ychwanegol sydd eu hangen i gwblhau eu gradd a dim ond ar gyfer benthyciad cynhaliaeth y byddai'r cyfnod hwn yn gymwys iddynt.

Unwaith y bydd myfyriwr wedi atal neu dynnu'n ôl o astudio:

- ◇ caiff y gyfran briodol o'r benthyciad dysgu ei gyfrifo gan ddefnyddio'ch dyddiad presenoldeb diwethaf a bydd eich benthyciad dysgu yn cael ei addasu yn unol â hynny.
- ◇ ni fydd dim taliadau cyllid myfyrwyr eraill yn cael eu gwneud er o dan amgylchiadau arbennig, mi ellid ystyried apêl yn erbyn hynny ar gyfer yr astudiaethau hynny a gafodd eu hatal.
- ◇ caiff y gyfran briodol o gyllid myfyrwyr ei gyfrifo gan ddefnyddio'ch dyddiad presenoldeb diwethaf a bydd unrhyw ordaliadau yn cael eu hadfer. Bydd unrhyw arian a gafodd ei ordalu na chafodd ei ad-dalu yn cael ei dynnu o'ch hawl chi i gyllid yn y dyfodol.

Ystyriaethau ariannol eraill:

- ◇ unwaith y byddwch chi wedi peidio â bod yn fyfyrwr, efallai y byddwch yn atebol am daliadau Treth y Cyngor. Cofiwch ofyn i'r Awdurdod Lleol.
- ◇ oni fydd eich landlord yn cytuno i'ch rhyddhau chi o gytundeb tenantiaeth, **byddwch yn dal i fod yn atebol am unrhyw rent rydych chi wedi'ch contractio i'w dalu.** Fel arfer, mi wnaiff Brifysgol a'r landlordiaid hynny sy'n hysbysebu trwy Studentpad eich rhyddhau chi o'r contract ond mi wnân nhw godi mis o rent a ffi weinyddol arnoch chi.
- ◇ os ydych chi'n derbyn unrhyw fudd-daliadau lles, bydd angen i chi roi gwybod iddynt am y newid yn eich amgylchiadau er mwyn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol.

YSTYRIAETHAU ERAILL OS YDYCH CHI'N ATAL EICH ASTUDIAETHAU

- ◇ myfyrwyr sy'n atal eu hastudiaethau heb gwblhau semester 1 yn llwyddiannus yn dychwelyd i'w hastudiaethau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Os ydynt wedi cwblhau semester 1 yn llwyddiannus, byddant yn dychwelyd ym mis Ionawr ar gyfer 2il semester y flwyddyn academaidd nesaf. Yn y naill achos neu'r llall, bydd unrhyw farciau/gwaith anghyflawn blaenorol yn cael eu fforffedu a byddant yn dechrau gyda 'llechen lân'.
- ◇ fel rheol disgwylir i fyfyrwyr sy'n atal astudiaethau am resymau meddygol roddi tystiolaeth feddygol ar adeg yr atal a chyn dychwelyd.
- ◇ mae eich astudiaethau yn parhau i fod yn amodol ar reoliadau'r Brifysgol o ran terfynau amser: rhaid cwblhau gradd 3 blynedd o fewn 5 mlynedd a gradd 4 blynedd o fewn 6 blynedd.
- ◇ **nid** yw atal astudio yn ffordd o ddal i fyny ar y gwaith neu wella marciau.

Y BROSES: SUT I ATAL NEU DYNNU'N ÔL O ASTUDIO

RHAID i fyfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol wneud cais i'w Hysgol academaidd i Dynnu'n ôl neu i Atal astudio.

Rhaid gwneud pob cais arall gan Israddedigion ar gyfer naill ai atal neu dynnu'n ôl o astudio trwy'r Tîm Cefnogi Myfyrwyr yng Ngwasanaethau'r Myfyrwyr gan ddefnyddio'r ffurflen briodol. Mae'n well gwneud hynny'n bersonol trwy gyfarfod ag ymgynghorydd i drafod y sefyllfa er o dan rai amgylchiadau mae'n bosib ei wneud dros y ffôn neu drwy e-bost.

Dylid hefyd ei wneud cyn gynted ag y bo modd ar ôl ichi benderfynu er mwyn lleihau unrhyw gordaliadau cyllid myfyrwyr.

Unwaith y bydd y ffurflen wedi'i chyflwyno, bydd Ymgynghorydd y Myfyrwyr yn:

- ◇ hysbysu'r staff perthnasol yn y brifysgol fel bo'n briodol i'ch amgylchiadau chi.
- ◇ hysbysu'r sefydliadau Cyllid Myfyrwyr lle bo hynny'n berthnasol
- ◇ cadarnhau gyda chi pan fydd hynny wedi'i gwblhau
- ◇ bydd yn cysylltu â'r rheiny sydd wedi atal astudio tua 2 fis cyn i chi ddychwelyd gyda'r wybodaeth angenrheidiol i chi aildechrau'ch astudiaethau.

Os ydych chi wedi atal eich astudiaethau neu wedi tynnu'n ôl yn llwyr o astudio, bydd hefyd angen i chi roi gwybod i Gyllid Myfyrwyr. Mae hynny'n helpu osgoi / lleihau gordaliadau cyllid myfyrwyr a phroblemau gyda cheisiadau yn y dyfodol.

Os ydych chi'n trosglwyddo i brifysgol arall, dylech ohirio cysylltu â Chyllid Myfyrwyr hyd nes y byddwch wedi trosglwyddo'n llwyddiannus ac yna rhoi gwybod iddynt pa sefydliad rydych chi wedi trosglwyddo iddo.

Y TÎM CEFNOGI MYFYRWYR

Gall y Tîm Cefnogi Myfyrwyr helpu gyda materion heblaw am atal a thynnu'n ôl o astudio. Mae'n cynnwys yr Uned Cymorth Ariannol, Swyddfa Tai'r Myfyrwyr a'r Canllawiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae croeso i chi alw heibio yn ystod oriau swyddfa felly cewch ddod i'n gweld ni ar y

Llawr 1af, Neuadd Rathbone

Dydd Llun – Dydd Gwener 9.00 – 16.30

Gallwch hefyd drefnu apwyntiad trwy e-bostio neu ffonio:

 01248 383566

 cefnogimfyrwyr@bangor.ac.uk

Cyfeiriad: Y Tîm Cefnogi Myfyrwyr, Gwasanaethau Myfyrwyr,
Llawr 1af, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg
Bangor, LL57 2DF

Mae'r tîm yn cynnwys:

Steph Barbaresi: Pennaeth Cefnogi Myfyrwyr

Gwenda Blackmore: Ymgynghorydd Ariannol y Myfyrwyr

Kim Davies: Ymgynghorydd y Myfyrwyr

Amy Jones: Swyddog Tai

Helen Munro: Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y
Myfyrwyr

Mair Owen: Swyddog Tai

Wendy Williams: Ymgynghorydd y Myfyrwyr

FFYNONELLAU ERAILL O GYMORTH A CHYNGOR

Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg

Y Gwasanaeth Anabledd: Llawr Gwaelod Is

 01248 382032  gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Y Gwasanaeth Cwmsela Myfyrwyr: 2il Lawr

 01248 388520  cynghori@bangor.ac.uk

Y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd: 2il Lawr


 01248 382071  gyrfaoedd@bangor.ac.uk

Canolfan Ryngwladol Cymorth i Fyfrwyr: y bloc newydd


 01248 388430  internationalsupport@bangor.ac.uk

Gweinyddu Myfyrwyr

Fron Heulog / Canolfan Wreccsam: Fron Heulog

 01248 382200


Canolfan Prif Adeilad y Celfyddydau: Llawr 1af Adeilad Newydd y Celfyddydau

 01248 388484

Canolfan Safle'r Normal: Adeilad Eifionydd

 01248 382478

Canolfan y Gwyddorau: Adeilad Wheldon, Ffordd Ddeiniol

 01248 383103

 gweinyddiaeth-myfyrwyr@bangor.ac.uk

 Ffurflen Ymholiadau'r We:

<http://www.bangor.ac.uk/ar/enquiries/newindex.php.cy>